COFNODION
GORFFENNAF 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 19eg Gorffennaf, 2006
AMSER	7.00yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU YN BRESENNOL	Tom Ellis (Cad), Nerys Evans, Meurig Williams, Jason Hunt, Gwilym L.Williams, Neal Williams, Elin Evans
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Glyn Owen, Alun Ffred Jones AC Bethan Williams (clerc)

1. Cyflwyniad gan Alun Ffred Jones AC

Eglurodd Mr.Jones fod nifer o newidiadau eitha mawr yn mynd i ddigwydd yn y Cynulliad. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2007 yn rhoi llawer iawn mwy o bwerau i'r Cynulliad.
Pwnc arall sydd yn mynd a'u sylw ar hyn o bryd yw arian Ewrop. Mae Gwynedd wedi llwyddo i ddenu symiau sylweddol o grant dros y blynyddoedd diwethaf gyda Amcan Un, y nod rwan yw ceisio denu'r un math o arian gyda'r grantiau newydd. Y bwriad ydy creu prosiectau mwy o faint yn hytrach na nifer o rai bychain. Bydd rhaid i'r Aelodau geisio eu gorau i ddenu'r arian i'r gogledd, gan fod tueddiad i roi'r arian i lefydd na ddaru mor dda, megis y cymoedd ac ati, ac felly fe fydd yn dipyn o dasg i gael buddsoddiad yn yr ardal yma.

Plismona – Alun Ffred Jones wedi cael cyfarfod efo Richard Brunstrom, ac roedd yntau dan yr argraff y bydd plismona yn dod o dan ofalaeth y Cynulliad yn y dyfodol. Mae'r cynllun i wneud un gwasanaeth heddlu dros Gymru bellach wedi'i roi o'r neilltu gan y gweinidog John Reid.

Gwasanaeth Ambiwlans – Yn dilyn ymddiswyddiad Roger Thane, y Prif Weithredwr, gwnaethpwyd penderfyniad i gael ymgynghoriad ar y gwasanaeth gan yr archwilydd cyffredinol – gobeithir cael canlyniadau'r ymgynghoriad ym mis Hydref. Nodwyd fod y gwasanaeth ar y cyfryw yn eitha da yng Ngwynedd. Arbennig o dda yn Wrecsam a Chonwy a Gwynedd yn eitha da. Nodwyd fod y De yn wael iawn. Yr ofn ydy y bydd y De yn ceisio cael mwy o bres ac felly'n gwanhau'r gwasanaeth yn y gogledd.

Ffordd osgoi Bontnewydd – Andrew Davies wedi llythyru yn ddiweddar yn nodi na fydd bwriad dechrau ar y gwaith tan o leiaf 2010, ac nad ydynt wedi'i hamserlenni ar hyn o bryd. Cynta bydd y Cynulliad yn rhoi caniatad i gael astudiaeth gychwynnol, yna bydd gobaith y bydd y gwaith yn digwydd wedyn. Awgrymu y dylai pawb ysgrifennu a phwyso cymaint a phosib.

Cynllun Uwchgwyrfai – WEFO – angen i'r clerc gysylltu efo swyddfa AFFJ i geisio cael enw'r swyddog i weld yn union beth yw'r sefyllfa. Mae AFFJ hefyd yn ceisio cael cyfarfod efo'r swyddog.

Trefniadaeth Ysgolion – gweinidog addysg wedi gofyn wrth bob sir i edrych ar drefn eu hysgolion, a nodi na all y system bresennol aros fel y mae. Mae rhai ysgolion mewn ardaloedd eraill yng Nghymru yn eitha bodlon ar y sefyllfa ond rhai eraill yn anfodlon iawn. Angen edrych ar bob ysgol ac ystyried yr holl oblygiadau cyn gwneud penderfyniadau.

2. Ymddiheuriadau

Elwyn Jones, Gwilym Vaughan Thomas, Emrys Jones, Huw Williams, Hugh Jones

3. Croeso

Estynwyd groeso cynnes i bawb.

4. Datgan Buddiant

TE – cynllunio – Capel Saron

5. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf (20.07.06) fel rhai cywir. cNE eMW

6. Materion yn Codi

a. Angen gofyn am arwyddion arafu ger llwybrau troed sydd yn croesi'r ffordd fawr rhwng Groeslon a Llanwnda.
b. Polyn trydan ger Glandwr, Rhos Isaf wedi pydru – angen cysylltu efo Manweb (Hefin Thomas).
c. Dwr yn casglu ger Bowydd, Rhos Isaf – clerc i gysylltu efo Adran Briffyrdd.
d. Cysgodfan bysiau Penyffridd, Rhosgadfan – derbyniwyd llythyr a deiseb gan drigolion y pentref yn gofyn am gael chwalu'r gysgodfan a gosod un newydd yn ei lle. Penderfynwyd gofyn am bris. c.TE eJH Angen i'r clerc gydnabod y llythyr a'r ddeiseb.
e. Gwyneb y ffordd tuag at y fynwent yn Rhosgadfan yn wael iawn – clerc i anfon nodyn at Adran Briffyrdd.
f. Angen cysylltu efo'r Bwrdd Dwr i nodi fod peipen yn gollwng dwr ger Dafarn.
g. Torri gwrychoedd – gweler is-bwyllgor cyllid isod. Angen cysylltu efo Rheilffordd Eryri i'w hatgoffa i dorri'r gwrych o gwmpas pont Caer Moel ac i fyny'r ffordd tuag at Dolellog.
h. TE yn checio os ydy llwybr yn Dolydd wedi'i dorri.
i. Angen gofyn eto am balmant rhwng Penyffridd a Trem Don yn Rhosgadfan.
j. Eithin wedi gordyfu ar ffordd i fyny am Penrallt, Rhosgadfan – clerc I anfon nodyn i'r Adran Briffyrdd.
k. Safle We – clerc wedi ffonio'r tri chwmni a gafodd gynnig tendro ond doedd yr un o'r cwmniau am wneud y gwaith. Clerc i geisio cysylltu efo rhai eraill er mwyn cael pris i'w gymharu. Awgrymwyd y cwmni Cymru1.net
l. Nododd y clerc fod arwyddion llwybr Bryngwyn bellach wedi'i gosod – clerc am drefnu taith gerdded i geisio cael cyhoeddusrwydd i'r llwybrau.

7. i Derbyn Adroddiadau

Dim

8. Is-bwyllgorau

Cyllid a gweinyddol – 12.07.06 – roedd y clerc wedi gwahodd 5 contractwr i dorri'r gwrychoedd rhwng Dinas/Rhostryfan/ Ffrwd Cae Du. Dim ond un pris dderbyniwyd - £300 & TAW am bob toriad– gan Gwilym Ll.Williams, ac fe benderfynwyd i gynnig y gwaith iddo. Mae wedi gaddo gwneud y gwaith yn fuan.

9. Materion Ariannol

Balans ar ddiwedd 19.07.06	Cyfrif llog uchel:	21,867.46
	Cyfrif siec:	29.40
	CYFANSWM:	£21,896.86
(i) Cymeradwywyd y taliadau canlynol:	Cyflog/Costau clerc - 2 fis	840.42
	Wyn Williams	999.00
	Cyllid y Wlad – 2 fis	181.28
	Petty Cash	100.00
	Ad-daliad offer swyddfa	51.70
	Xpose Media - arwydd	243.23
	CYFANSWM	2,415.63
	YN WEDDILL	**£19,481.23**

10. Materion Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO6A/0485 – adeiladu toiled – Capel Saron, Saron
CO6A/0476/24/LL – addasiadau – Libanus, Rhos Isaf
CO6A/0469/24/LL – estyniad i'r tŷ, addasu adeilad allanol i bwll nofio a chodi storfa newydd

Wedi'u caniatau:
Newidiadau i Plot 4, Hen Eglwys St Michael, Rhostryfan
Estyniad 1 Tyn Llan, Dinas

Derbyniwyd copi o lythyr o wrthwynebiad, at Adran Gynllunio Gwynedd, i'r cais ar dir Marianfa, Rhosgadfan gan drigolion lleol. Clerc i gydnabod y llythyr.

11. Gohebiaeth

i Llythyr gan Elwyn Vaughan, Cymad yn nodi fod rhestr 'snaggio' wedi'i hanfon i'r contractwr gan Gyngor Gwynedd ac wedi anfon allan am bris ar gyfer gwneud gwaith ychwanegol ar nifer o'r safleoedd eraill. Gobeithio bydd y gwaith yn digwydd yn fuan.

ii Gwasanaeth Iechyd - ymestyn cyfnod ymateb i'r ymgynghoriad – Cynllun Gogledd Cymru.

iii Cynhadledd Gofal a Thrwsio – Galeri, Caernarfon 24.07.06.

iv Swyddfa'r Post – gwybodaeth am newid yn y ffordd y caiff taliadau post eu prisio – bydd y newidiadau yn dod i rym ar yr 21ain o Awst.

v Grwp Cyswllt Lleol Safle Tirlenwi Cilgwyn – cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 18.05.06 ac agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 14.09.06.

vi Cynghorydd Elwyn Edwards – llythyr yn nodi fod cais i geisio dileu'r arferiad o newid enwau tai lleol i'r Saesneg. Angen cymorth gan drigolion lleol i gael rhestr gyflawn.

vii Cynulliad – canllawiau ar ddarparu indemniadau.

viii Cyfadran Adnoddau Cyngor Gwynedd – costau cynllun gosod biniau baw cŵn wedi codi'n aruthrol. Felly, ni fydd unrhyw finiau newydd yn cael eu gosod yn y dyfodol agos.

ix Heddlu – cylchlythyr.

x Prif Weinidog Cymru – adroddiad blynyddol.

xi Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – ymgynghoriad – cynllun lleihau risg yr Awdurdod ar gyfer 2007-08. Clerc i anfon copi at EmJ i gael ei ymateb cyn 29ain o Fedi.

xii Derbyniwyd llythyr o gwyn a deiseb gan drigolion sy'n byw gerllaw i Glanaber, Rhostryfan, ynglŷn â gor-dyfiant yn yr ardd. Clerc i wneud copi o'r llythyr a'r ddeiseb a'u hanfon at y perchnogion, y tenant ac at swyddog yn yr adran briffyrdd.

xiii Dilys Phillips – Cyfadran Adnoddau Cyngor Gwynedd - ymateb i'n cwynion am ddiffyg gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd. Wedi gaddo dod nôl ynglŷn a'r ddeiseb a gyflwynwyd ym Medi 2005 ynglŷn â'r broblem baw cŵn yn Rhostryfan.

xiv Cafwyd gwybodaeth gan NE ynglŷn â cwmni sy'n archwilio offer chwarae. Clerc i gysylltu i gael pris.

xv Llythyr a deiseb gan drigolion Rhosgadfan yn cwyno am gyflwr y gysgodfan bysiau ym Mhenyffridd. Cais ganddynt i gael dymchwel y gysgodfan a chael gosod un newydd, heb ochrau, ar y safle. Clerc i gydnabod y llythyr ac i gael pris am gael dymchwel y gysgodfan bresennol a phris am gael un newydd.

12. Unrhyw Fater Arall – Materion ar gyfer mis nesa

i Cwynion wedi dod i law ynglŷn â motobeics bychain sydd yn cael eu defnyddio ar y ffordd fawr yn anghyfreithlon. Agnen dwyn y mater i sylw'r heddlu yn ystod ein cyfarfod ym mis Medi.

ii GO wedi derbyn cwyn am geir sydd wedi parcio ar y pafin dros y ffordd i rhifau 1,2 a 3 Bro Wyled, Rhostryfan. Gwybodaeth wedi dod i law fod bwriad ceisio creu man parcio pwrpasol ar y safle gwyrdd y tu allan i rifau 3 a 4. Clerc i gysylltu â'r Adran Briffyrdd i gael cadarnhâd.

iii JH – cwynion ynglŷn â baw cŵn ger Braich Melyn, Rhostryfan. Clerc wedi rhoi arwydd yn nodi fod dirwy ar gael - JH i'w osod ger y safle.

13. Cyfarfod Nesaf

20fed Medi, 2006 – Neuadd Rhostryfan – i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45p.m.